*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 677 (Cy. 159)

# ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

## Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) (Diwygio) (Diwygio) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *7 Mehefin 2017* |
| *Yn dod i rym - -* | *10 Mehefin 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 1, 8(1) a 83(2) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (**1**).

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) (Diwygio) (Diwygio) 2017.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Mehefin 2017.

**Diwygiadau i Orchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) (Diwygio) 2017**

**2.** Mae Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) (Diwygio) 2017(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

**3.** Yn erthygl 1 (enwi, cymhwyso a chychwyn) yn lle paragraff (3) rhodder—

"(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Medi 2017."

(**1**) 1981 p. 22. Mae swyddogaethau o dan y Ddeddf yn arferadwy gan Weinidogion Cymru (o ran Cymru), yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (O.S. 2004/3044); ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) O.S. 2017/674 (Cy. 156).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Lesley Griffiths*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

7 Mehefin 2017

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r dyddiad yn erthygl 1 o Orchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) (Diwygio) 2017 (O.S. 2017/674 (Cy.156)) er mwyn i'r Gorchymyn hwnnw ddod i rym ar 11 Medi 2017.